# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-24-2005)

### Dyddiad y Cyfarfod: 11 Hydref 2005

#### Amser y Cyfarfod: 9.30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Sara Mansour | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb:

Rosemary Butler, Dai Lloyd

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-23-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd pwyntiau gweithredu ar ôl ers y cyfarfod blaenorol, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen ar unwaith i drafod y ddeddfwriaeth.

Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1143 - Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005

Nodwyd bod gwall sillafu ym mharagraff cyntaf y Nodyn Esboniadol: roedd y gair "encephalopathies" wedi'i gamsillafu. Hefyd, roedd gwall teipograffyddol ym mharagraff 3(b) o'r Rheoliadau: dylai'r gair "form" ddarllen "from".

4.2 Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol wrth y Pwyllgor ei fod wedi copïo adroddiad blaenorol er mwyn sicrhau'r fformat cywir wrth ysgrifennu'r adroddiad yma, a'i fod wedi cadw'r paragraff olaf drwy amryfusedd. Cynigiodd y dylai'r paragraff yma gael ei ddileu. Cytunodd yr Aelodau â'i awgrym.

4.3 Gyda'r cywiriadau yma, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.4 LC1150 - Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005

Nodwyd bod cyfeiriad rhyw-benodol ym mharagraff 40 at "a part-time fireman". Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol fod y cyfeiriad yn codi mewn dyfyniad o'r ddeddfwriaeth bresennol, a oedd yn

cael ei disodli. Roedd yr Aelodau’n fodlon ar yr esboniad.

4.5 Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol wrth y Pwyllgor fod yna wahaniaeth barn mewn perthynas â’r Gorchymyn yma rhwng Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor a’r cyfreithwyr a’i drafftiodd. Roedd y Cynghorwyr Cyfreithiol o’r farn y dylai’r geiriau "England or" gael eu dileu o’r cyfuniad "or in England or Wales, fire and rescue authorities", a hynny am fod y Gorchymyn yn berthnasol i Gymru yn unig. Dywedodd fod Clerc Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o’r un farn. Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol fod Lloegr eisoes wedi gwneud y ddeddfwriaeth gyfatebol i gyfeirio at yr Awdurdodau Tân ac Achub ac nad oedd y ddeddfwriaeth honno’n cynnwys cyfeiriad at Gymru. Fyddai’r ddeddfwriaeth gyfatebol ar gyfer Cymru a Lloegr ddim yn cyd-fynd â’i gilydd pe bai’r geiriau "or in England" yn cael eu cadw. Hefyd, roedd digwyddiadau wedi bod o’r blaen lle cododd problemau o’r ffaith bod un rhan o’r Deyrnas Unedig yn honni ei bod yn deddfu ar ran rhan arall; pan gyfeiriwyd at "Weinidogion yr Alban" ac at "yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Cymru a Lloegr " pan oedd y mater eisoes wedi’i drosglwyddo mewn gwirionedd i’r Cynulliad. Pe na bai’r geiriau "England or" yn cael eu dileu, fe allai sefyllfa debyg godi mewn perthynas â’r Gorchymyn yma yn y dyfodol. Pe bai’r Aelodau’n cytuno â’r awgrym, y cyfan y byddai angen i’r cyfreithwyr a ddrafftiodd y Gorchymyn ei wneud fyddai cyflwyno Memorandwm Cywiriadau byr.

4.6 Cafwyd cwestiwn am oblygiadau ariannol posibl dileu’r geiriau "England or": Mynegwyd y farn y gallai hyn ddylanwadu ar faterion fel tâl ac amodau neu ddarpariaethau ar gyfer grantiau arbennig oddi wrth yr Awdurdodau Canolog. Soniwyd hefyd fod y cyfreithwyr a ddrafftiodd y Gorchymyn wedi treulio llawer o amser yn ei baratoi a bod y sylwadau a dderbyniwyd ar ran y Gweinidog yn cynghori mai gadael y Gorchymyn fel yr oedd fyddai’r peth gorau.

4.7 Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol na fyddai dim goblygiadau ariannol yn ei farn e – mater drafftio pur oedd hwn.

4.8 Ar ôl trafodaeth faith, penderfynwyd pleidleisio ar y mater. Canlyniad y bleidlais oedd 4 i 3 o blaid gadael y Gorchymyn fel y cafodd ei ddrafftio yn wreiddiol. Phleidleisiodd y Cadeirydd ddim. Penderfynwyd newid adroddiad drafft y Pwyllgor yn unol â hyn. Camau i’w cymryd: Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc

4.9 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1136 - Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005**

**LC1137 - Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005**

**LC1138 - Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005**

**LC1139 - Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005**

**LC1140 - Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005**

**LC1141 - Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005**

**LC1142 - Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005**

## Camau i'w cymryd

4.8 Penderfynwyd y dylai'r Cynghorydd Cyfreithiol ddileu'r pwynt adrodd o Adroddiad Drafft y Pwyllgor ar LC1150 - Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005.

## Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi trafod "LC1134 - Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005" yn y cyfarfod ar 4 Hydref 2005 gan gytuno y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd Cyfreithiol. Er hynny, dywedodd y Cadeirydd fod rhagor o wybodaeth wedi dod i'r amlwg wedyn. Gofynnodd i'r Cynghorydd Cyfreithiol gyflwyno'i sylwadau.

5.2 Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol fod y cyfreithwyr a ddrafftiodd y Gorchymyn wedi rhoi esboniad boddhaol iddo am un o'r pwyntiau y tynnwyd sylw ato yn ei adroddiad. Gan fod adroddiad y Pwyllgor eisoes wedi'i gyflwyno gerbron y Cynulliad, dywedodd y dylai gael ei adael fel yr oedd, ond na fyddai angen rhoi sylw i'r pwynt a grybwyllwyd yn y paragraff olaf wrth i'r Memorandwm Cywiriadau gael ei wneud. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym.

5.3 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 18 Hydref 2005.